# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Tachwedd 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cyfanswm y gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i ymweliad y Prif Weinidog, ei staff a'r gweision sifil ag Uwch-Gynhadledd y Byd yn Johannesburg, a'r ymweliad ag Awstralia wedi hynny. (WAQ20448)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cyfanswm y gost i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i ymweliad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ei staff a gweision sifil â Gogledd America. (WAQ20449)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcangyfrif y gost o sefydlu holl 'lysgenadaethau' tramor arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ20450)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw amcangyfrif nifer y staff a gyflogir ym mhob un o 'lysgenadaethau' tramor arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a faint o'r rhain y disgwylir eu recriwtio o'r gwledydd tramor lle cânt eu sefydlu. (WAQ20451)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw cyfanswm y gost flynyddol o gynnal 'llysgenadaethau' tramor arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys costau staffio. (WAQ20452)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa astudiaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (os gynhaliwyd un) i gymharu'r gost o sefydlu a chynnal y 'llysgenadaethau' tramor arfaethedig â'r manteision economaidd i Gymru. (WAQ20453)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa feini prawf a ddefnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i benderfynu ar leoliad y 'llysgenadaethau' tramor arfaethedig. (WAQ20454)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut fydd y 'llysgenadaethau' tramor

arfaethedig yn cydweithio â Llysgenadaethau'r DU sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y gwledydd hynny. (WAQ20455)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau a gymerir i sicrhau nad yw gwaith y 'llysgenadaethau' tramor arfaethedig yn dyblygu nac yn amharu ar waith y mae Llysgenhadaeth y DU yn ei wneud ar hyn o bryd. (WAQ20456)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi teitl y swydd, disgrifiad o'r swydd a dyletswyddau pob person yn y 'Llysgenadaethau' tramor arfaethedig. (WAQ20457)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl gallu cyhoeddi penodiad contractiwr datblygu ac adeiladu adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ20458)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o gyfanswm yr arian a wariwyd hyd yn hyn ar brosiect adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ20459)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r amcangyfrif diweddaraf o gyfanswm y gost o gwblhau prosiect adeilad newyd y Cynulliad. (WAQ20460)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa hysbysebu a ragwelir ar gyfer y swyddi yn y 'Llysgenadaethau' tramor arfaethedig, ym mha gyhoeddiadau, a beth fydd y gost. (WAQ20461)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn caniatáu amser ar gyfer trafod pwnc y 'Llysgenadaethau' tramor arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn. (WAQ20462)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg*

**Delyth Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r mesurau, fel a nodir yn y Siarter Ewropeaidd ar Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol, sy'n cael eu dilyn ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU, ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. (WAQ20463)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd*

**Dai Lloyd (South Wales West);** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog am gost trosglwyddo o'r strwythurau NHS presennol i'r strwythurau newydd y bwriedir eu creu. (WAQ20464) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi disgrifiad clir, ynghyd â diagram eglurhaol, i esbonio swyddogaethau a chyd-berthynas yr holl wahanol gyrff y bwriedir eu creu drwy'r ail-strwythuro arfaethedig o'r NHS. (WAQ20465) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** Ydy'r Gweinidog yn rhagweld ail-strwythuro pellach i'r NHS yng Nghymru o ganlyniad i adolygiad arfaethedig Wanless. (WAQ20466) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a chynrychiolyddion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru parthed ailstrwythuro'r NHS a pha argymhellion a wnaethpwyd iddi gan y cynrychiolyddion hynny. (WAQ20469) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi rhestr o Gadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol arfaethedig ynghyd â gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n eu cymhwyso ar gyfer y gwaith. (WAQ20470) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dadansoddiad llawn o ymhlygiadau cost rhedeg y strwythurau NHS newydd ynghyd â chymhariaeth a chost rhedeg y strwythurau presennol. (WAQ20471) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** Pa dâl ariannol y bwriedir ei wneud i Gadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol arfaethedig a pha wybodaeth sydd ganddi am gyfanswm cost y taliadau hynny. (WAQ20472) **W R**

**Dai Lloyd (South Wales West);** Pa mor aml y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd pob un o'r gwahanol gyrff y bwriedir eu creu o dan gyfundrefn newydd arfaethedig yr NHS yn cyfarfod, a beth fydd cost cynnal y cyfarfodydd hynny. (WAQ20473) **W R**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**; A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr oedi wrth roi Taliadau Blynyddol Defaid i Ffermwyr Cymru ac a wnaiff y Gweinidog ddweud pryd y byddant yn cael eu talu. (WAQ20467)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog sicrhau y caiff y Taliadau Buchod Sugno sy'n ddyledus i ffermwyr y mis hwn eu talu mewn pryd. (WAQ20468)